

# RYDYM YN **recriwtio**

## UCHAFBWYNTIAU Y SWYDD





# Swyddog ar Ddyletswydd - Hamdden Prestatyn

## Gwybodaeth Hanfodol

Cyflog: £28,770 - £31,364 y flwyddyn

Oriau: Llawn amser, 37 awr yr wythnos

Contract: Parhaol

## Ynglŷn â'r Swydd

Mae Hamdden Prestatyn yn cael ei ailddatblygu'n sylweddol, gan ychwanegu Stiwdio Prama 'o'r radd flaenaf', Cwrt Sboncen Rhyngweithiol, cyfleuster Clip a Dringo a'n prif orsaf ail-lenwi Costa – y cyfan i fod i agor yn gynnar yn yr hydref.

Fel Swyddog ar Ddyletswydd, byddwch yn llywio rhaglennu a datblygiad y cyfleusterau newydd cyffrous hyn, yn ogystal â bod â rôl ymarferol wrth ddarparu rhaglenni.

Byddwch hefyd yn hybu archebion a refeniw ar gyfer neuadd chwaraeon y ganolfan, y gampfa, caeau pob tywydd - gan reoli perthnasoedd ag ysgolion, clybiau a budd-ddeiliaid eraill a gorsaf ail-lenwi Costa Refuel.

Byddwch yn cynnig arweiniad ac yn rheoli staff y safle, yn cynnwys bod yn gyfrifol am drefnu staff llanw pan fo rhywun yn sâl neu ar wyliau, trefnu rotas staff, a pherfformiad staff o ddydd i ddydd.

Byddwch hefyd yn gyfrifol am ddiogelwch staff a chwsmeriaid, diogelwch yr adeilad, trin arian parod a bancio. Bydd disgwyl i chi hefyd ymgymryd â gwaith cynnal a chadw cyffredinol ac ymateb i alwadau y tu allan i oriau agor arferol.

Rydym yn ymfalchïo yn ein cyfleusterau a'r amgylchedd rydym yn ei gynnig i'n cwsmeriaid, felly rydym yn disgwyl i chi gymryd perchnogaeth dros y safle, a sicrhau ei fod yn lân, yn daclus, ac yn ddiogel i bawb ei ddefnyddio trwy'r amser.

*\*Mae'r dogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English\**



# Swyddog ar Ddyletswydd - Hamdden Prestatyn

## Amdanoch Chi

Byddwch yn arweinydd ysbrydoledig, gyda lefel uchel o angerdd a brwdfrydedd i ddatblygu staff a'r busnes. Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol sgiliau pobl rhagorol, bydd yn unigolyn trefnus iawn ac yn gallu defnyddio'i fenter ei hun i ddatrys problemau.

Byddwch yn arweinydd ysbrydoledig, gyda lefel uchel o angerdd a brwdfrydedd i ddatblygu staff a'r busnes. Yn ddelfrydol, bydd gennych rywffaint o brofiad o weithio mewn cyfleuster hamdden, ffitrwydd neu ddringo, ond mae'n bwysicach eich bod yn angerddol ac yn llawn cymhelliant, yn gallu dangos diwylliant o berfformiad uchel ac awydd i dyfu gyda'r cwmni. Darperir hyfforddiant llawn i'r ymgeisydd llwyddiannus. Mae'r swydd hon yn golygu rheoli tîm o staff ac felly mae sgiliau arweinyddiaeth yn bwysig. Dyma'r sgiliau arweinyddiaeth rydym ni'n chwilio amdanynt:

- Gallu ysbrydoli, ysgogi a grymuso eraill
- Angerdd a chymhelliant i gyflwyno gwasanaethau ardderchog i gwsmeriaid
- Dibynadwyedd a gwytnwch
- Gonestrwydd, a gallu cymryd cyfrifoldeb a gofyn am gymorth pan fo angen

Os ydych chi'n berson deinamig, yn arweinydd sy'n canolbwyntio ar bobl, ac yn dymuno cymryd cam pellach yn eich gyrfa a gweithio mewn cwmni prysur a hynod llwyddiannus, yna gallai hon fod yn swydd berffaith i chi.



## Swyddog ar Ddyletswydd - Hamdden Prestatyn

### Amdanom Ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 14 mlynedd, mae HSDdCyf wedi datblygu portffolio o gyfleusterau sy'n arwain y sector, gan gynnwys 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm, 7 darpariaeth bwyd a diod unigryw, 2 atyniad anhygoel a theatr syfrdanol â 1,000 o seddi.

Mae tîm HSDd yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydyn ni'n gweithio i athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydyn ni i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle rydych chi wedi'ch lleoli. Gyda'n gilydd rydyn ni i gyd yn cyfrannu at wneud HSDdCyf yn llwyddiannus

### Ein Gwerthoedd



Uchelgais a Thwf



Ymddiriedolaeth ac Uniondeb



Rhagoriaeth a Gwydnwch



Balchder ac Angerdd



## Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr HSDd hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd gostyngedig
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blynyddol yn dechrau ar 26 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i ennill mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisïau teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

**Lleoliad:** Prestatyn Leisure, 2 Princes Ave, Prestatyn LL19 8RS

**Dyddiad Cau:** Dydd Gwener 19 Gorffennaf, 2024

**Ymgeisiwch ar ein gwefan:** <https://denbighshireleisure.co.uk/cy/gyrfaoedd/>

